PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

DYDD MAWRTH, 15 IONAWR 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Bridgeman (Cadeirydd),<br>Y Cynghorwyr De'Ath, Philippa Hill-John, Morgan, Phillips, Taylor a/ac Singh |
| | Aelodau Cyfetholedig: Patricia Arlotte (Cynrychiolydd Gatholig Rufeinig), Carol Cobert (Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru) a/ac Karen Dell'Armi (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr) |
| | Yasmin Bahary (Cyngor Ieuenctid Caerdydd) |

59 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Heather Joyce a'r Cynghorydd Phillips a nododd y byddai'n hwyr.

60 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd Patricia Arlotte buddiant rhagfarn o ran Eitem 9 ar y sail bod ei hwyrion yn mynychu Ysgol Gynradd Gatholig Pedr Sant.

61 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

62 : POLISI DIOGELU – ADRODDIAD AR GYNNYDD AC ADOLYGIAD O BOLISI

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver (Aelod y Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad a Chadeirydd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol), Claire Marchant (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol) ac Alys Jones (Rheolwr Gweithredol, Diogelu) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Weaver i wneud datganiad, ac amlygwyd y ffaith bod Diogelu yn cwmpasu'r holl Gyfarwyddiaethau a bod gofynion y polisi yn cael eu deall gan bawb.

Rhoddwyd cyflwyniad i aelodau'r pwyllgor (Polisi Diogelu Corfforaethol ac Adroddiad ar Gynnydd) a amlinellodd nifer o faterion gan gynnwys y prif gyflawniadau hyd heddiw a'r flaenraglen waith.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylwadau, gofyn am eglurhad neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Trafododd aelodau rai enghreifftiau o broblemau diogelu sydd wedi eu codi, cyfeiriodd Swyddogion at enghraifft o bryder a godwyd ynglŷn â gyrrwr tacsi. Bu angen rhoi ystyriaeth i'r trefniadau a roddwyd ar waith gan yr awdurdod lleol i fynd i'r afael â

phroblemau o’r fath, a’r weithdrefn am atal person o’r fath rhag bod yn yrrwr neu sicrhau bod gweithdrefnau diogelu ar waith. Cyfeiriodd Swyddogion hefyd at enghraifft o gasglwr gwastraff yn casglu sbwriel ac yn dod yn ymwybodol o blentyn yn y cartref mewn trallod. Dyma enghraifft o gydnabod problem bosibl ac adrodd arno er mwyn galluogi ymchwiliad ynddo.

- Mynegodd aelodau bryderon o ran a oes gan dîm mor fach â thîm trwyddedu y capasiti i weithredu’n llawn ar yr uchelgeisiau o ran diogelu, ond pwysleisiodd fod angen sicrhau bod diogelu wedi ei ymwreiddio fel y gall yr holl staff ddeall eu cyfrifoldeb a'r hyn sy'n ofynnol.

- Nododd aelodau fod yr hyfforddiant sylfaenol ymwybyddiaeth o ddiogelu wedi ei sicrhau, gall y staff gael gafael ar yr hyfforddiant gyda dyfeisiau, darperir hyfforddiant ar wahân ar gyfer y rhai nad oes ganddynt fynediad.

- Gofynnodd aelodau am y cysylltiad rhwng y polisi a’r strategaeth ‘Prevent’. Nodwyd bod y gwaith yn mynd rhagddo gyda phartneriaid, er bod ganddo broblemau, i sicrhau y cynhelir yr hyfforddiant yn gywir. Wrth ystyried y gofynion statudol, mae'n hanfodol bod yr elfennau hyfforddiant yn cael eu cysylltu â'i gilydd.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a’u harsylwadau a thrafodwyd y ffordd ymlaen.

## 63 : CYFRANIAD CONSORTIWM CANOLBARTH Y DE AT GODI SAFONAU YN YSGOLION CAERDYDD

Ar ddechrau’r agenda, nododd y Cadeirydd y byddai'r eitem hon ynghyd ag Adroddiad Blynyddol Ysgolion yn cael eu trafod gyda'i gilydd.

Croesawodd y Cadeirydd Louise Muteham (Swyddog Datblygu HCDC), Geraint Lewis a Catherine Rowlands (Uwch Ymgynghorwyr Her) i’r cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd hefyd y Cynghorydd Merry (Diprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau), Nick Batchelar (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes) a Jackie Turner (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Addysg) i’r cyfarfod, i gyflwyno eu barn ar adroddiad y consortiwm i aelodau ac i gyflwyno yr Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad Ysgolion.

Gwnaeth y Cyfarwyddwr Cynorthwyol gyflwyniad i Aelodau (Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad Ysgolion Caerdydd 2017/18) a ddaeth i ben gyda'r prif heriau sef: lleihau’r bwlch ym mherfformiad plant sy’n derbyn gofal o’i gymharu â phlant eraill eu hoedran; gwella canlyniadau dysgwyr ar lefel 1; gwella canlyniadau dysgwyr a addysgir mewn lleoliadau nad ydynt yn ysgolion (Addysg Heblaw yn yr Ysgol); parhau i leihau'r bwlch yng nghanlyniadau pobl ifanc sy’n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim o’i gymhari â'r rhai nad ydynt yn gymwys a sicrhau bod darpariaeth o ansawdd uchel ar waith i wella lles yr holl ddisgyblion a’r staff ym maes addysg.

Cyflwynodd Cathreine Rowlands adroddiad Consortiwm Canolbarth Y De a rhoddodd wybod i aelodau fod y Rheolwr Gyfarwyddwr wedi gadael ar ddiwedd y mis diwethaf.

Rhoddwyd i aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r cynnydd mewn ysgolion mewn angen.  O'r 127 o ysgolion, rodd angen cymorth coch ar 3 yn ystod 2017/18 ond eleni, 2 fydd yr ysgolion sydd angen y fath gymorth; roedd angen cymorth lefel ambr ar 11 o ysgolion yn ystod 2017/18 ond bydd 12 yn y categori hwn eleni; roedd angen cymorth lefel melyn ar 48 o ysgolion yn ystod 2017/18, ond eleni bydd 46 o ysgolion yn y categori hwn; ac yn olaf, roedd angen cymorth lefel gwyrdd ar 65 o ysgolion yn ystod 2017/18, ond bydd 70 o ysgolion yn y categori hwn eleni.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylwadau, gofyn am eglurhad neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd aelodau am berthnasedd y wybodaeth a ddarparwyd yn y tablau cynghrair.  Dywedodd y Swyddogion fod y ffigurau wedi eu darparu gan Lywodraeth Cymru.  Beth sydd ei angen yw datganiad clir o uchelgais – mae Caerdydd yn ddinas ryngwladol ac fel prifddinas, dylai Caerdydd gael ei chymharu â dinasoedd eraill; mae angen symud oddi ar y gymhariaeth â'r 21 awdurdod lleol arall yng Nghymru.

- Mynegodd aelodau bryder fod llawer i'w wneud ar gyfer plant sy'n derbyn gofal er bod y canlyniadau wedi gwella i ryw raddau, ac mae pryderon o hyd o ran plant sy'n derbyn gofal sy'n cael eu hanfon y tu allan i'r sir, yn enwedig o ran eu haddysg.  Dywedodd yr Aelod Cabinet ei bod yn bwysig i Gaerdydd ddarparu am bob un o'i phlant sy'n derbyn gofal gan gynnwys y rheiny sydd y tu allan i'r sir ac sydd yng Nghaerdydd.  Mae Swyddogion yn credu bod problemau gyda'r ffordd a ddyrennir cyllid ychwanegol.  Dylai'r cyllid ddilyn y plentyn a'r cynllun addysg. Nes y bydd y dyraniad cyllid yn newid, mae'n bwysig ceisio cefnogi'r system yr ydym ni ynddi ar hyn o bryd, mae'n bwysig defnyddio'r cyllid yn fwy priodol. Mae'n rhaid bod aliniad rhwng yr awdurdodau ac mae'n rhaid i bawb ymrwymo i gael yr addysg orau.

- Gofynnodd aelodau am yr offer parodrwydd ar-lein a chafodd wybod ei fod wedi ei seilio ar theori Kotter am newid sy'n broses wyth cam.  Cafodd aelodau wybod fod Caerdydd ar y trywydd iawn ar hyn o bryd gan ystyried y cafodd y cwricwlwm drafft ei gyhoeddi ym mis Ebrill.

- Gofynnodd aelodau p'un a fyddai'r consortiwm fod wedi disgwyl i ysgolion nodi unrhyw broblemau os nad oedd unrhyw beth wedi ei nodi yn y 3 archwiliad diwethaf ai peidio, a dywedwyd wrthynt y gall hyn ddigwydd, ei bod yn bosibl i adroddiadau fod yn wrthrychol iawn, ond nad oedd llawer o ganlyniadau annisgwyl gan amlaf. Nododd Swyddogion fod cyfarfodydd ar y cyd yn cael eu cynnal rhwng yr awdurdod lleol a'r consortiwm lle bydd pob ysgol yn cael ei hystyried, o AD i wella'r ysgol ac addysgeg.  Mae pwyslais penodol ar hyn o bryd ar ysgolion melyn a gwyrdd i weithio'n ataliol fel na fydd unrhyw ganlyniadau annisgwyl.

- Amlygodd aelodau bwysigrwydd yr addysgu da cyson a'r profiadau dysgu ychwanegol sydd wedi eu rhaglennu'n dda. Mae ymgysylltu â busnesau a chyflogwyr wedi ei dargedu'n fwriadol mewn ysgolion mewn ardaloedd dan anfantais.

- Gofynnodd aelodau p'un a oedd rhagor o symudiadau mewn swyddi uwch arweinyddiaeth erbyn hyn. Nododd y swyddog datblygu fod yno ragor o gyfleoedd am ddatblygu proffesiynol gyda'r Grwpiau Gwella Ysgolion.

- Trafododd aelodau p'un a oedd camau llywio ar y cyd ar gyfer digartrefedd a chysgu yng nghartrefi ffrindiau a theulu. Nodwyd bod pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn dal i fod yn broblem yn y ddinas er bod y darlun yn gadarnhaol o ran hynny.

  Yn genedlaethol, mae nifer y plant sydd mewn llety dros dro yn cynyddu.

- Dywedwyd wrth Aelodau fod tuedd gynyddol mewn addysg ddewisol yn y cartref ond nad oedd y ffigurau hynny yn rhan o'r ffigurau Addysg Heblaw yn yr Ysgol. Nodwyd y gwelwyd cynnydd yn niferoedd y gwaharddiadau o'r ysgol am lai na 5 niwrnod yn sector ysgolion cynradd a gofynnodd Aelodau p'un ai a oedd unrhyw duedd neu batrwm. Nododd Swyddogion fod rhyw faint o gynnydd yn addysg ddewisol yn y cartref yn cynnwys y plant nad yw ysgolion yn eu heisiau.

- Gofynnodd Aelodau p'un a fyddai colli'r Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig yn effeithio ar yr ysgolion hynny sydd â chanran uwch o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, yn benodol y grwpiau Romani a Sipsiwn Teithwyr. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod gwleidyddion yn parhau i lobïo gerbron Llywodraeth Cymru ar y mater hwn er bod barn Llywodraeth Cymru wedi newid i ryw raddau. Weithiau, nid yw un model o ddarpariaeth yn addas i bob awdurdod.

- Holodd Aelodau pa mor gryf oedd y Consortiwm yn gysylltiedig â Chyrff Llywodraethu Ysgolion a dywedodd CR (Uwch Ymgynghorydd Her) nad oedd yn ddigon yn y dechrau - ac er bod hyfforddiant wedi ei ddarparu, nid oedd hyn yn golygu eu bod yn gweithredu ag y dylent. Fodd bynnag, gwnaed adolygiadau o Gyrff Llywodraethu, crëwyd cynllun gweithredu ac mae adolygiad pellach wedi bod yn cael ei gynnal. Er bod y ffordd o weithio hon yn effeithiol mae rhagor i'w wneud o hyd.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau a thrafodwyd y ffordd ymlaen.

## 64 : ADRODDIAD BLYNYDDOL YSGOLION CAERDYDD

I'w ddileu o'r cofnodion, gweler yr eitem flaenorol.

## 65 : DEDDF ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A'R TRIBIWNLYS ADDYSGOL 2018 – ADRODDIAD BRIFFIO AR GYNNYDD

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau), Nick Batchelar (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes), Jenny Hughes (Uwch Arweinydd Cyflawniad ar gyfer Cynhwysiant) a Liz Jones (Arweinydd Trawsnewid ADY ar gyfer Rhanbarth Canolbarth y De) i'r cyfarfod.

Gwnaeth Jenny Hughes gyflwyniad byr (Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysgol, Goblygiadau i Gaerdydd) a amlinellodd nodau'r Ddeddf a phrif heriau a chamau gweithredu o ganlyniad.

Cyflwynodd Liz Jones (Arweinydd Trawsnewid ADY Rhanbarth Canolbarth y De) ei rôl i Aelodau yn ogystal â'r gwaith a gynhaliwyd gan Ranbarth Canolbarth y De hyd heddiw.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylwadau, gofyn am eglurhad neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Nododd Aelodau nas crybwyllwyd y cysylltiad cryf rhwng plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a phlant sy'n derbyn gofal yn benodol.  Dywedodd Swyddogion y bydd angen cynllun datblygu unigol (CDU) ar bob plentyn gydag ADY sy'n derbyn gofal.  Mae'n rhaid bod cysylltiad gweithgar rhwng yr ysgol ac asiantaethau eraill, a fydd yn caniatáu i roi rhagor o sylw i ymyrraeth gynnar.  Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi awgrymu na fydd gweithredu ar hyn yn defnyddio adnoddau.  Dywedodd LJ y bydd goblygiadau ar gyfer adnoddau.  Mae'n rhaid alinio cynlluniau ar y cyd.  Bydd CDU yn rhan annatod o'r Cynllun Addysg Personol.

- Gofynnodd aelodau am eglurhad o ran tarddiad y CDU ar gyfer plant 0-3 oed, a sut y mae'n cael ei drosglwyddo i addysg dosbarth meithrin ymhellach a hefyd i'r ysgol.  Cafodd Aelodau wybod bod gwaith wedi ei ariannu gan grant yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ynglŷn â hynny.   Byddai'r Gwasanaeth Iechyd yn atgyfeirio.  Er mai nhw fydd yn arwain wrth osod y CDU, byddai cyfrifoldeb ar yr awdurdod dan y cod i sicrhau ei fod yn cael ei roi ar waith.  Crëwyd dwy swydd newydd, swyddog clinigol arweiniol a swyddog anghenion dysgu ychwanegol y blynyddoedd cynnar.  Maent yn swyddi statudol sydd â'r bwriad y byddant yn gweithio ar y cyd a chyda'r awdurdod lleol i sicrhau na fydd unrhyw blant yn cael eu gadael yn ôl.

- Holodd Aelodau p'un a fyddai rhwymedigaeth ar feithrinfeydd preifat i ddilyn y CDUau a dywedwyd wrthynt fod swyddogion yn gweithio gyda'r sector annibynnol eisoes, a bydd yno gyfrifoldeb arnynt a

darperir hyfforddiant hefyd.

- Nododd Aelodau fod y rhain yn newidiadau sylfaenol i'r system hon. Adolygir y trefniadau gyda'r consortiwm ar hyn o bryd i sicrhau eu bod yn addas i'w pwrpas. Y cwestiwn yw p'un a oes digon o gapasiti a phenderfyniad i gyflawni'r hyn i gyd yr ydym yn anelu ato. Ceir heriau mawr yn y rhaglen datblygu ysgolion ynglŷn â'r newidiadau ADY; nid yw'n niwtral o ran adnoddau yn bendant.

- Pwysleisiodd Aelodau sydd wedi cynnal gwaith yn y Pwyllgor ar blant sy'n derbyn gofal fod Cynlluniau Addysg Personol yn wael iawn a gwnaethant holi pa sicrwydd y gellir ei roi y bydd y cynlluniau'n gyson ac o safon uchel. Dywedodd arweinydd ar drawsnewid ADY mai'r Swyddogion Adolygu Annibynnol sydd â'r cyfrifoldeb am CAPau, fodd bynnag, ynglŷn â CDUau mae rhaglenni treialu yn cael eu cynnal ar hyn o bryd i ganfod yr hyn a fydd yn Gynllun Datblygu Unigol da.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau a thrafodwyd y ffordd ymlaen.

66 : CTY YSGOLION YR 21AIN GANRIF BAND B – YSGOL UWCHRADD FITZALAN NEWYDD

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau), Nick Batchelar (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes) a Janine Nightingale (Pennaeth Trefniadaeth, Mynediad a Chynllunio Ysgolion) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Merry i wneud datganiad y cadarnhaodd hi ynddo fod mwyafrif yr ymatebion a gafwyd yn ystod yr ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Amlygodd y Cyfarwyddwr yr ymrwymiad i weithio ar y cyd gydag ystod eang o bartneriaid a soniodd am y Bartneriaeth Addysg Greadigol sydd wedi ei sefydlu gydag Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd, a'r berthynas rhwng Ysgol Uwchradd y Dwyrain a Choleg Caerdydd a'r Fro. Bydd cyfleusterau chwaraeon yr ysgol newydd ar gael i'w defnyddio gan y gymuned fel mewn ysgolion eraill.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylwadau, gofyn am eglurhad neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Holodd Aelodau faint y chweched dosbarth yn yr ysgol newydd, a dywedwyd wrthynt nad oedd yn bosibl darparu'r wybodaeth ar adeg y cyfarfod, ond bydd Fitzalan yn ysgol 11-18 oed. Nodwyd bod pwysau gwirioneddol ar hyn o bryd ar ariannu addysg ôl-16.

- Pwysleisiodd Aelodau bwysigrwydd mynediad ysgolion cynradd i'r cyfleusterau, a chawsant wybod bod giât arbennig yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain a ddefnyddir gan ddisgyblion Ysgol Gynradd Trowbridge. Mae'n bwysig y defnyddir y cyfleusterau yn y ffordd orau bosibl.

- Gofynnodd Aelodau am weithio mewn partneriaethau a pha fath o bartneriaethau a gaiff eu cynnwys yn yr ysgol newydd. Ymatebwyd iddynt fod cysylltiadau cryf eisoes wedi eu datblygu, er enghraifft llu cadetiaid cyfun; a hefyd y cysylltiadau cryf gyda busnesau drwy'r cyrsiau a ddarperir yn yr ysgol. Roedd Swyddogion hefyd yn ystyried datblygu chwaraeon yn y rhan honno o'r ddinas, ond hefyd nad oeddent yn bwriadu gorfodi'r ysgol mewn mowld parod. Mae'n bwysig peidio â gorfodi ond yn hytrach i annog.

  Dywedwyd hefyd wrth Aelodau fod y defnydd ar y cyd o gyfleusterau yn yr ardal yn cael ei drafod ond nid yw wedi cael ei bennu eto.

- Nododd Aelodau y bydd y newidiadau yn yr ysgol yn aruthrol, ond roeddent yn dymuno egluro sut y gall strwythur yr adeilad gyfrannu at les y disgyblion. Dywedodd Swyddogion mai'r bobl ifanc eu hunain oedd un o'r grwpiau a gyfrannodd at yr ymarfer ymgynghori a bod eu barn ar ddyluniad yr adeilad a sut y'i defnyddir wedi ei chynnwys yn y dyluniad. Mae disgyblion hefyd wedi cyfrannu at y llwybrau beicio a mannau croesi, sy'n ystyried y llwybrau cerdded i'r ysgol a ddymunir.

- Holodd Aelodau hefyd p'un a fydd asesiad penodol o lygredd aer naill ai yn yr ysgol neu ar hyd y llwybr i'r ysgol. Cadarnhaodd Swyddogion y mae asesiad manwl o drafnidiaeth wedi'i gynnal, bydd nifer y plant yn aros yr un, dim ond y safle sydd wedi ei newid ychydig. Derbynnir bod yr ardal yn brysur gyda'r cae pêl-droed a'r ysgol. Mae llygredd ac ansawdd aer yn pennu pa fath o unedau cyfnewid aer a gwres sy'n cael eu rhoi yn yr ysgol. Nodwyd hefyd fod yr acwsteg yn bwysig ac mae'r sŵn a'r traffig yn cael eu monitro. Dywedwyd wrth Aelodau hefyd y bydd angen cynnal unrhyw weithgareddau dysgu yn yr awyr agored y tu ôl i adeilad yr ysgol i'w ddefnyddio fel byffer sŵn.

- Nododd Aelodau fod lleoedd ar gael yn yr ysgol dair blynedd yn ôl, ond erbyn heddiw mae llawer mwy o geisiadau am leoedd nag ag y gellir eu cynnig, a bydd pwysau cynyddol ar leoedd yn yr ysgol yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, dyma resymeg y buddsoddiad Band B.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr nad oedd y dull o baru cyflenwad yn wahanol am leoedd ysgol, fodd bynnag mae ysgolion gwell, ac er bod dalgylchoedd yn chwarae rhan yn y system meini prawf, nid ydynt yn gwarantu lle yn yr ysgol. Mae'n rhaid cael system meini prawf agored. Mae angen i ysgolion fod yn yr ardal iawn.

  Nodwyd mai'r peth pwysig oedd bod pob ysgol yn darparu yr hyn sydd ei eisiau ar gyfer ein plant, ac nid i ysgolion penodol gynyddu oherwydd dewis y rhieni.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau a thrafodwyd y ffordd ymlaen.

## 67 : ADRODDIAD AROLYGIAD ESTYN – YSGOL GYNRADD GATHOLIG PEDR SANT

*Ail-datganodd Patricia Arlotte ddiddordeb rhagfarn o ran yr eitem hon a gadael y cyfarfod.*

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau), Nick Batchelar (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes) a Catherine Rowlands (Uwch Ymgynghorydd Her) i'r cyfarfod.

Dywedodd y Cyfarwyddwr ei fod wedi defnyddio ei bwerau ac o ganlyniad, mae'r ysgol mewn mesurau arbennig. Rhoddwyd ystyriaeth i'r mesurau hynny a fyddai'n cynorthwyo'r ysgol i ddychwelyd i sefyllfa mor sicr â phosibl. Cynhaliwyd ymgynghoriad â'r Corff Llywodraethu a'r Esgobaeth gan mai ysgol wirfoddol a gynorthwyir yw hon; caiff y ddirprwyaeth ei thynnu'n ôl; bydd yn ofynnol i'r ysgol greu partneriaeth gydag Ysgol Gynradd yr Eglwys Newydd sy'n ysgol a all gynnig cyngor da ar agweddau na chawsant eu gwella dros y blynyddoedd, a chaiff 3 Llywodraethwr newydd eu penodi. Nododd Aelodau fod y Corff Llywodraethu a'r Esgobaeth wedi cytuno.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylwadau, gofyn am eglurhad neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Dywedodd CR wrth Aelodau mai cyfrifoldeb yr ysgol oedd creu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn cael monitro cadarn ar y cynllun hwnnw. Mae Grŵp Gwella Llywodraeth hefyd ar waith, a bydd yr Ymgynghorydd Her yn ymweld â'r ysgol 6 gwaith y flwyddyn i werthuso'r broses fonitro. Mae'n bwysig hefyd cynnal cyfathrebu da gyda rhieni.

- Mae'r Cadeirydd, ar ran Aelod o'r cyhoedd wedi gofyn am wybodaeth pam y caniateir i'r Pennaeth presennol aros yn ei swydd o ystyried methiant yr ysgol wrth weithredu'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiadau. Dywedodd y Cyfarwyddwr mai rôl y Corff Llywodraethu yw dwyn y Pennaeth i gyfrif. Yr hyn a wnaed erbyn hyn yw rhoi mesur sicrwydd i wneud yn siŵr bod y Corff Llywodraethu yn cyflawni ei swyddogaeth cefnogi a herio ac yn dwyn yr arweinyddiaeth i gyfrif. Diben y camau gweithredu yn rhoi rhyw raddau o sicrwydd i rieni. Mae'r Cyfarwyddwr yn credu bod rhieni wedi eu cynnwys yn y broses o roi'r ysgol mewn mesurau arbennig, Cyhoeddwyd yr Adroddiad Estyn ar 10 Rhagfyr ac mae'r wasg wedi adrodd ar hyn.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau a drafodwyd yn rhan o'r ffordd ymlaen.

## 68 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni chyflwynwyd unrhyw eitemau brys.

69 : Y FFORDD YMLAEN

Trafododd aelodau y wybodaeth a dderbyniwyd a nodi nifer o broblemau y cytunai'r Cadeirydd fyddai'n cael eu cynnwys yn y llythyrau fyddai'n cael eu hanfon, ar ran y Pwyllgor, at yr Aelodau Cabinet a'r Swyddogion perthnasol.

70 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ddydd Mawrth 19 Chwefror am 1.30 pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.10 pm